OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 3223

# Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014

## RHAN 3

## TRAWSGYDYMFFURFIO

### Safonau ar gyfer cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da

**13.**—(1) Mae'r safonau ar gyfer cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da a bennir yn Atodlen 1 yn gymwys fel y gofynion lleiafswm at ddibenion Erthygl 94 o'r Rheoliad Llorweddol ac Atodiad II i'r Rheoliad hwnnw.

(2) Ond mae darpariaethau Atodlen 2 yn pennu'r amgylchiadau pan nad yw torri darpariaeth o Atodlen 1 yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio.

### Awdurdodau rheoli cymwys

**14.**—(1) Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod rheoli cymwys yn yr ystyr a roddir i "competent control authority" at ddibenion Erthygl 67 o'r Rheoliad Gweithredu Llorweddol ac eithrio pan bennir yn wahanol yn y rheoliad hwn.

(2) At ddibenion Erthygl 67(1)(a) o'r Rheoliad Gweithredu Llorweddol, yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r "corff rheoli arbenigol" yn yr ystyr a roddir i "specialised control body", sy'n ymgymryd â'r cyfrifoldeb am gyflawni'r rheolaethau mewn perthynas â'r gofynion rheoli statudol o dan rifau 5 ac 11 i 13 o Atodiad II i'r Rheoliad Llorweddol.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, mewn perthynas â'r safonau y maent yn gyfrifol amdanynt, wneud yn ofynnol bod awdurdod perthnasol yn cyflawni rheolaethau neu wiriadau at ddibenion Erthygl 65, Pennod I o Deitl III a Phennod II o Deitl IV o'r Rheoliad Gweithredu Llorweddol.

(4) Rhaid i awdurdod perthnasol, pan ofynnir iddo gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol, weithredu'r rheolaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (3)—

(a) anfon adroddiad rheoli dros dro, ynglŷn â'r rheolaethau a weithredwyd, ar Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol (yn ôl fel y digwydd);

(b) os tybia, wrth ymgymryd â'i weithgareddau eraill, fod methiant i gydymffurfio wedi digwydd, hysbysu'r person neu'r corff sy'n gyfrifol, o dan baragraff (1) neu (2) o'r rheoliad hwn, am weithredu'r rheolaethau mewn perthynas â'r methiant hwnnw i gydymffurfio.

(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr "awdurdod perthnasol" ("*a relevant authority*") yw—

(a) Cyfoeth Naturiol Cymru;

(b) Awdurdod Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion; neu

(c) Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol.

(6) Gweinidogion Cymru sy'n gorfodi'r Rhan hon o'r Rheoliadau, a chaiff Gweinidogion Cymru, mewn ysgrifen, awdurdodi personau i orfodi'r Rhan hon o'r Rheoliadau hyn.